

COFNODION BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU
28 Medi 2016
Llywodraeth Cymru, Llandrindod

YN BRESENNOL

Andy Richardson (AR)
Norma Barry (NB)
Catherine Fookes (CF)
Justine Fosh (JF) (dros y ffôn)
Alison Lea-Wilson (ALW)
David Lloyd (DL)
Katie Palmer (KP)
Marcus Sherreard (MS)
Huw Thomas (HT)

Swyddogion

Keith Smyton (KS) (nes canol dydd)
David Morris (DM)
Suzanne Pomeroy (SP)
David Lloyd-Thomas (DLT)
Rhodri Asby (RA) (nes 10.30am)

YMDDIHEURIADAU

Justin Scale
Andrew Slade
James Wilson
Buster Grant
Annitta Engel

Eitem 1: Croeso - Cadeirydd

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, esboniodd y newidiadau o ran swyddogion, a nododd yr ymddiheuriadau.
- Trafododd yr aelodau yn fras yr adolygiad a gynlluniwyd ar gyfer mis Rhagfyr a fydd yn cynnwys cais Ysgrifennydd y Cabinet i adrodd ar yr hyn y mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni a diweddarau aelodaeth y Bwrdd.

Eitem 2: Cofnodion cyfarfod 30 Mehefin 2016

- Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

Eitem 3: Dangosfwrdd Cyflenwi a Dangosfwrdd Diwydiant

- Rhoddodd DM amlinelliad o ddiben a chynnwys y dangosfwrdd, sef rhoi amlinelliad o'r gweithgareddau a drefnwyd ac a gwblhawyd mewn ffordd safonol. Gwnaed cynnydd da ac mae'r rhaglen mewn cyflwr da ac mae ganddi hanes blaenorol da.
- Esboniodd y Cadeirydd bod Dangosfwrdd y Diwydiant wedi cael ei lunio i roi deunydd syml, sy'n rhoi trosolwg er mwyn helpu aelodau i drafod gwaith y Bwrdd â chynulleidfa ehangach.

Eitem 4: Menter Trafnidiaeth

- Adroddodd DM am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Intercity Railfreight Ltd am y posibilrwydd o ddefnyddio trenau cludo pobl i gludo cynnyrch bwyd o Gymru i Lundain. Mae mentrau o'r fath eisoes ar waith yn ne-orllewin Lloegr, canolbarth Lloegr a dwyrain Lloegr. Mae'r cysyniad yn cynnig cyfleoedd i gael mynediad at farchnad enillfawr posibl Llundain, drwy gludo cynnyrch oer, cynnyrch wedi'u rhewi a chynnyrch ar dymheredd ystafell ar drenau presennol gyda'r pwynt gwerthu ychwanegol o gyflenwad carbon isel/di-garbon i'r orsaf ac oddi yno. Roedd menter berthnasol 'Teledu Trenau Ar-lein' yn cael ei datblygu i hyrwyddo cynnyrch a busnesau bwyd i deithwyr yn ystod eu taith. Roedd potensial hefyd i ddarparu sianel gwerthu newydd er mwyn gallu gosod archeb ar y trêen a'i gasglu wrth gyrraedd.

Eitem 5: Brexit:

- Darparodd RA drosolwg i'r Bwrdd o sut mae Llywodraeth Cymru yn trefnu ei hun er mwyn paratoi ar gyfer trafodaethau Brexit. Mae tîm penodol wedi'i greu er mwyn cefnogi Ysgrifennydd y Cabinet, gyda strwythur ehangach ar draws Llywodraeth Cymru. Rôl y tîm yw rhoi cymorth i dimau polisiâu a chyflawni presennol a chydweithio. Mae gwaith i ystyried effaith, risgiau a chyfleoedd wedi dechrau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cynnal dwy sgwrs o amgylch bwrdd â rhanddeiliaid, a phedwar gweithdy manwl wedi hynny. Bydd 3 gweithdy ychwanegol ym mis Hydref yn rhannu'r pwyntiau hyn er mwyn creu datganiad cyntaf o'r goblygiadau, risgiau a chyfleoedd.
- Nododd aelodau'r bwrdd bod cyfathrebu da gyda'r diwydiant a bod safle Cymru yn y DU yn cael ei ystyried yn dda ac yn glir.

Eitem 6: Ffrwd Gwaith Busnes a Buddsoddi

- Dywedodd HT bod y paratodau ar gyfer cynhadledd 2 Tachwedd wedi datblygu'n dda ac mae digon o ddiddordeb gan gynrychiolwyr lefel uchel gan gynnwys cynrychiolaeth gref gan y banciau. Bydd y

gynhadledd yn canolbwyntio ar arloesi a buddsoddi ac yn nodi bylchau y gellir buddsoddi ynddynt er mwyn gwella arloesedd.

Eitem 7: Ffrwd Gwaith Pobl a Sgiliau

- Gwnaeth JF a DL gyflwyno papur a oedd yn crynhoi'r gwaith hyd yn hyn. Bwriad y ffrwd gwaith yw nodi atebion ar gyfer bylchau (tymor byr a thymor hir) lle nad yw anghenion sgiliau'r diwydiant wedi'u bodloni. Roedd y prif ffocws ar y sectorau cynnyrch llaeth a phobi, gyda chig i ddilyn. Mae pwyslais yn cael ei roi ar ddod o hyd i atebion ar gyfer busnesau a darparwyr hyfforddiant, a dod o hyd i atebion ar gyfer rhwystrau recriwtio myfyrwyr (e.e. bwsariaethau, gweithio gyda swyddogion gyrfaedd, cynnwys ysgolion, defnyddio myfyrwyr diweddar fel llysgenhadon, creu cyrsiau trosi er mwyn agor llwybrau recriwtio newydd). Bwriedir cynnal Cynhadledd Sgiliau yn gynnar yn 2017.
- Nododd aelodau natur trawsbynciol y gwaith ac roeddent yn awyddus i sicrhau cymorth a chymau gweithredu eang ar draws Llywodraeth Cymru.

Eitem 8: Ffrwd Gwaith Cwsmeriaid a'r Farchnad

- Esboniodd CF bod y ffrwd gwaith yn canolbwyntio ar dair thema: dadansoddi bylchau o ran masnachwyr a'r gwasanaeth bwyd; perfformiad allforio; defnyddio gwybodaeth i nodi tueddiadau, datblygu rhwydweithiau a helpu cynhyrchwyr i gynnal neu ddatblygu eu presenoldeb mewn manwerthwyr mawr. Mae'r ffrwd gwaith yn awyddus i ddod o hyd i straeon llwyddiant a'u hyrwyddo ar gyfer pob un o'r rhain. Mae cydweithio â Levercliff yn bwysig er mwyn ychwanegu gwerth. Mae cysylltiadau da â'r rhaglen 'clystyrau' a thwristiaeth hefyd yn bwysig.

Eitem 9: Hybu Cig Cymru

- Rhoddodd Dai Davies (Cadeirydd) a Gwyn Howells (Prif Swyddog Gweithredol) gyflwyniad am rôl HCC a safle marchnad Cig Eidion a Chig Oen Cymru. Mae HCC wedi arwain datblygiad 'Cynllun Gweithredu Strategol y Diwydiant Cig Coch' a oedd yn gosod amcanion tymor canolig ar gyfer gwella perfformiad y diwydiant. Y strategaeth gyffredinol yw rhoi'r ddau fath o gynnyrch ar y farchnad fel cynnyrch o safon uchel sydd â tharddiad da, yn hytrach na cheisio cystadlu â phrisiau mewnforion. Mewn ymateb i bwynt gan aelodau'r Bwrdd, esboniodd HCC ei fod yn datblygu polisi is-frand lle bydd is-frandiau yn cael eu gosod i gynnal ac atgyfnerthu prif frand Cig Oen Cymru. Mae natur marchnad y DU yn golygu bod angen gwneud mwy o waith i ddatblygu marchnadoedd cryfach ar gyfer rhannau llai poblogaidd o'r sgerbwdd. Cytunwyd bod datblygu cyfleoedd yn y sector gwasanaeth bwyd yn ddatrysiad da.

Eitem 10: Ffrwd gwaith Cyfathrebu a Chysylltu

- Roedd diweddariad KP yn nodi diffyg gallu'r Bwrdd a'r Is-adran Fwyd i wneud gwaith ychwanegol a manteision cydlyn ymdrechion. Roedd y Bwrdd am i gylchlythyr chwarterol yr Is-adran Fwyd gynnwys darnau byr gan y Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Cabinet.
- Hysbysodd DM y Bwrdd am ddull newydd Llywodraeth Cymru o frandio sy'n golygu y bydd un brand safonol yn cael ei roi i bopeth.

Eitem 11: Cyngor Manwerthu Cymru (WRC)

- Rhoddodd Sara Jones drosolwg i'r aelodau o rôl a gwaith Cyngor Manwerthu Cymru. Mae aelodau Cyngor Manwerthu Cymru yn aelodau awtomatig o Gyngor Manwerthu Prydain (BRC) sydd â 255 o aelodau. Mae ei aelodau'n gwasanaethu 90% o'r farchnad bwyd ac yn cynnwys yr holl manwerthwyr bwyd mawr. Materion presennol y WRC/BRC yw amodau masnachu yn tynhau o ganlyniad i gostau uwch, y symud parhaus ar-lein yn hytrach na siopa ar y stryd fawr, a llai o bŵer gwario gan ddefnyddwyr. Mae cyfraddau gwacter siopau Cymru yn uwch na chyfradd y DU.
- Er mwyn mynd i'r afael â heriau a chynllunio ar gyfer y dyfodol, bydd y WRC yn llunio cynllun dros y 12-18 mis nesaf a fydd yn debygol o gynnwys cynlluniau i leihau gwastraff bwyd, gwella labeli a gwerth ieuchyd cynnyrch, a chryfhau cysylltiadau cadwyn gyflenwi.
- Mae aelodau WRC/BRC yn poeni bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â buddsoddi incwm ardoll prentisiaethau i'r sector manwerthu gan nad yw'r sector yn un o sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

Eitem 12: Materion byw: Caffael y GIG

- Cyflwynodd Jessica Bearman a Matthew Harrhy drosolwg o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Ei nod yw cael wyth bwrdd ieuchyd Cymru i gaffael yn fwy effeithiol. Ar hyn o bryd, mae dros 20 o gontractau bwyd Cymru gyfan a'r polisi yw tendro contractau 'Cymru gyfan' drwy 'Gwerthwch i Gymru' wrth i hen gontractau ddod i ben. Y contract cig sydd nesaf, ac yna chynnyrch llaeth. Mae tendrau'n cael eu creu er mwyn caniatáu i gyflenwyr bach, lleol neu arbenigol wneud cais i gyflenwi eitemau penodol yn hytrach na'r contract cyfan. Y nod yw annog dulliau creadigol rhwng cyflenwyr. Nid yw Uned Caffael y GIG yn rhan o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ond maent yn gweithio'n agos a'i gilydd. Roedd Uned Caffael y GIG yn awyddus i gael cyngor y Bwrdd am gyflenwyr posibl, cysylltu â chyflenwyr, cynllunio contractau ac argaeledd cynnyrch Cymru.

Eitem 13: Materion byw - menter cig oen

- Rhoddodd MS yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am waith a arweinir gan HCC i wella oes silff cig oen Cymru. Mae gwelliannau i becynnu wedi gwella'r oes silff o 14 diwrnod i 35 diwrnod, er adroddwyd bod cig oen Seland Newydd yn para oddeutu 70 diwrnod. Mae gwelliannau pellach yn dibynnu'n fawr ar wella ymwybyddiaeth ffermwyr er mwyn gwella glendid anifeiliaid cyn cael eu lladd. Fodd bynnag, mae hinsawdd wlyb Cymru yn golygu efallai na fydd Cymru byth yn cyflawni perfformiad cyson Seland Newydd gan fod anifeiliaid yn llawer mwy tebygol o fod mewn cysylltiad â thir mwdlyd.

Eitem 14: Taclo Tlodi Bwyd

- Dywedodd KP bod menter gwyliau haf ysgolion ar waith mewn pum awdurdod lleol yn ne Cymru er mwyn mynd i'r afael a tlodi bwyd mewn plant. Yr uchelgais yw ehangu'n sylweddol. O'r cyfanswm o 22 awdurdod lleol, mae 18 wedi dangos diddordeb mewn cynnal sesiynau Bwyd a Hwyl. Trafododd y Bwrdd ffyrdd y gallai'r diwydiant bwyd gefnogi'r fenter a chodi ymwybyddiaeth ohoni er mwyn denu arian a chefnogaeth mewn nwyddau.